



Coleg Cambria

Polisi Derbyniadau AB

Enw'r Polisi:	Polisi Derbyniadau AB
Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	21/02/19
Cyflwynwyd i'w Gymeradwyo:	01/11/18
Cymeradwywyd gan:	SMT
Dyddiad Cymeradwyo	08/11/18
Dyddiad Adolygu:	08/11/21
Awdur:	Tracy Aldridge

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer derbyn dysgwyr llawn amser yng Ngholeg Cambria. Nod y coleg yw cynnig gwasanaeth cefnogol i bob ymgeisydd drwy gynnig cyngor ac arweiniad clir, diduedd a gwybodus. Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu camau'r broses.

2. Cyflwyno Ffurflen Gais

- 2.1 Derbynnir ffurflenni cais o'r noson agored gyntaf ym mis Tachwedd hyd at ddiwedd mis Medi'r flwyddyn ganlynol (h.y. cyfnod 11 mis).
- 2.2 Anogir ymgeiswyr i wneud cais ar-lein yn www.cambria.ac.uk. Gall Coleg Cambria ddarparu ffurflenni papur ar gais.
- 2.3 Dylid anfon ffurflenni cais wedi'u llenwi ar bapur at yr Adran Derbyniadau, Ffordd Celstryn, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4BR.
- 2.4 Dim ond un cais ar y tro gall Coleg Cambria ei brosesu. Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno nifer o geisiadau ar gyfer gwahanol gyrsiau, yna bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â nhw i sefydlu pa gais yr hoffent gael ei brosesu.
- 2.5 Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys yn yr Iaith Saesneg. Rhaid i siaradwyr anffodrol fod yn gymwys mewn Saesneg ar lefel B1 ar gyfer cyrsiau Lefel 1, a lefel B2 ar gyfer Lefel 2 ac uwch. Rhaid i ymgeiswyr ddangos hyn trwy lwyddo mewn prawf Iaith Saesneg cymeradwy. Rhaid gwirio tystysgrifau Iaith Saesneg trwy IELTS a bod tystysgrif wreiddiol yn cael ei chyflwyno. Ni dderbynnir Tystysgrifau Iaith Saesneg sy'n hŷn na dwy flwydd oed.
- 2.6 Mae angen i bob ymgeisydd sy'n dymuno gwneud cais am gyrsiau a ariennir gan y llywodraeth, fod â statws mewnffudo sy'n eu galluogi i gael mynediad cyfreithiol i addysg a ariennir, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol y Coleg.

3. Prosesu Ffurflenni Cais

- 3.1 Bydd pob ffurflen gais yn cael ei gwirio gan y Tîm Derbyniadau o fewn 48 awr ar ôl iddynt eu cael.
- 3.2 Bydd pob ymgeisydd yn cael eu gwahodd i ddod am gyfweiliad anffurfiol gydag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr (ac eithrio cyfweiliadau Sgiliau Byw'n Annibynnol, a fydd yn cael eu cynnal gan y Tiwtoriaid / Cydlynwyr Cymorth Ychwanegol). Cynhelir y cyfweiliadau ar safle Coleg Cambria lle cynhelir y cwrs, ar wahân i gyfweiliadau Chweched Glannau Dyfrdwy a fydd yn cael eu cynnal ar brif safle Glannau Dyfrdwy.
- 3.3 Rhoddir dyddiad y cyfweiliad i ymgeiswyr cyn gynted ag y bo modd ar ôl i ni gael eu ffurflen gais, a dim hwy na 25 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais.

- 3.4 Bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu ag ymgeiswyr drwy lythyr a neges destun (os yw'r ymgeisydd wedi rhoi rhif ei ffôn symudol) i drefnu dyddiad y cyfweiliad.
- 3.5 Os nad yw ymgeisydd yn gallu dod i'r cyfweiliad ar y dyddiad a drefnwyd, dylai roi gwybod i'r Tîm Derbyniadau drwy eu ffonio neu anfon neges destun neu e-bost atynt.
- 3.6 Byddwn yn atgoffa ymgeiswyr am ddyddiad eu cyfweiliad drwy eu ffonio ac anfon neges destun atynt 1 - 3 diwrnod cyn y cyfweiliad.

4. Y Broses Gyfweld

- 4.1 Yn gyffredinol, byddwn yn cynnal cyfweiliadau ar ôl 4pm. Yn ystod gwyliau'r ysgol / coleg byddwn fel arfer yn eu cynnal drwy gydol y dydd rhwng 9am-5pm. Os oes gan ymgeisydd ddyddiad neu amser penodol mewn golwg i ddod i gyfweiliad bydd Coleg Cambria bob amser yn ceisio cydsynio â'r cais hwnnw. Lle bo'n bosibl, byddwn yn gwahodd myfyrwyr aeddfed i ddod i gyfweiliad yn ystod y dydd.
- 4.2 Dylai ymgeiswyr roi gwybod eu bod wedi cyrraedd ar gyfer eu cyfweiliad i staff derbynfa safle Coleg Cambria y derbyniwyd gwahoddiad iddo.
- 4.3 Gofynnir i ymgeiswyr ddod â phrawf o'u cymwysterau neu'r cymwysterau a ragwelir gyda nhw i'r cyfweiliad, ynghyd â ffurf adnabod ddilys (h.y. pasbort, tystysgrif geni neu drwydded breswyllo biometrig, Ffurflen Caniatâd Rhieni (a anfonwyd iddynt gyda'r llythyr cyfweiliad) ac unrhyw Ddatganiadau Addysgol, Cynlluniau Dysgu a Sgiliau neu Gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (os ydynt ar gael). Caiff cymwysterau a ddyfarnwyd dramor eu gwirio ar wefan NARIC y DU i wirio eu lefel gyfwerth.
- 4.4 Cynhelir y cyfweiliad gan aelod o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr (ac eithrio cyfweiliadau Sgiliau Byw'n Annibynnol, a fydd yn cael eu cynnal gan y Tiwtoriaid / Cydlynwyr Cymorth Ychwanegol). Mae enghreifftiau o rai o'r pynciau y byddwn yn eu trafod yn cynnwys: y cymwysterau a ragwelir / enillwyd, gobeithion am yrfa, gofynion cymorth i ddysgwyr.
- 4.5 Lle bynnag bo modd, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig lle amodol neu ddiamed ar gwrs yn ystod y cyfweiliad. Efallai bydd angen arweiniad ychwanegol ar y sawl sy'n cyfweld cyn y bydd yn gallu cynnig lle i ymgeisydd. Mewn achosion fel hyn, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â'r ymgeisydd o fewn pythefnos i'r cyfweiliad gyda'r canlyniad.
- 4.6 Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle yn y cyfweiliad yn cael eu cofrestru ar ddiwedd y cyfweiliad. Yn ystod y cam cofrestru, bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos ffurf adnabod ddilys. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr hefyd gael tynnu eu llun a fydd yn ymddangos ar gerdyn adnabod y coleg pan fyddant yn dechrau yn y coleg ym mis Medi.
- 4.7 Mae rhai cyrsiau yn gofyn am wiriad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gofynnir am hyn fel arfer ar gyfer cyrsiau sy'n cynnwys gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth gyda

phlant, pobl ifanc neu oedolion diamddiffyn. Bydd DBS yn codi tâl am hyn. Byddwn yn rhoi'r manylion hyn yn y cyfweiliad.

- 4.8 Yn y cam cofrestru, byddwn yn rhoi gwybodaeth am gludiant, cymorth ariannol a gofal plant (petai angen).
- 4.9 Ar ôl cofrestru, byddwn yn anfon e-bost at yr ymgeisydd sy'n cynnwys Cytundeb y Dysgwr.

5. Y Broses Gyfweld - Sgiliau Byw'n Annibynnol

- 5.1 Mae ceisiadau Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cael eu prosesu gan y Tîm Derbyniadau ac anfonir llythyr cydnabod at yr ymgeisydd. Mae'r llythyr yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r holl ddogfennau perthnasol i'r coleg cyn y sesiwn ragflas / cyfweiliad (h.y. Cynllun Sgiliau Dysgu, Cynllun Gofal Iechyd Addysgol, adroddiad ysgol, gwybodaeth feddygol, gofal cymdeithasol, cymwysterau).
- 5.2 Bydd y sesiwn ragflas yn ddiwrnod llawn yn y coleg a chynhelir y cyfweiliad fel rhan o'r sesiwn ragflas.
- 5.3 Cynhelir y sesiwn ragflas gan y tiwtoriaid a chynhelir y cyfweiliad gan y Cydlynnydd Cymorth Ychwanegol. Byddwn yn cael adborth o'r sesiwn ragflas gan y tiwtoriaid. Rhoddir gwybodaeth am drefniadau cludiant y coleg yn ystod y cyfweiliad.
- 5.4 Cynhelir cyfarfod y panel o fewn 14 diwrnod ar ôl cynnal y sesiwn ragflas a'r cyfweiliad, i drafod a ellir gwneud cynnig i bob ymgeisydd a ddaeth i sesiwn ragflas. Bydd y panel yn cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cydlynnydd/Cydlynwyr Cymorth Ychwanegol, Swyddog Diogelu ac aelod o'r Tîm Derbyniadau.
- 5.5 Byddwn yn anfon llythyr at ymgeiswyr i roi gwybod iddynt a ydym yn cynnig lle iddynt ai peidio.
- 5.6 Os cynigiwyd lle i ymgeisydd, bydd y Tîm Derbyniadau yn cofrestru pob ymgeisydd ar system y coleg drwy newid y cod cynnydd i **ENR-COND Conditional Enrolment**.
- 5.7 Bydd gofyn i ymgeiswyr gael tynnu eu llun pan fyddant yn dechrau ar eu cwrs ym mis Medi. Bydd y llun yn ymddangos ar gerdyn adnabod y coleg.

6. Ar ôl y Cyfweiliad

- 6.1 Efallai bydd Coleg Cambria yn cysylltu ag ymgeiswyr ac yn anfon gwybodaeth iddynt am ddiwrnodau myfyrwyr newydd, newyddion y coleg a gwybodaeth berthnasol arall drwy lythyr, e-bost a / neu neges destun.
- 6.2 Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw rhoi gwybod i'r coleg drwy ei ffonio neu anfon e-bost, am unrhyw newidiadau i'w data personol, yn enwedig eu henw(au), cyfeiriad, e-bost a'u rhifau ffôn.

- 6.3 Efallai bydd ymgeiswyr sydd wedi cofrestru yn cael eu gwahodd i ddod i ddiwrnodau myfyrwyr newydd yn ystod yr haf. Dyma gyfle i ymgeiswyr ddod i'r coleg am ddiwrnod i gyfarfod eu tiwtoriaid a'r myfyrwyr newydd eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol i roi cipolwg iddynt ar y cwrs y maent wedi cofrestru arno.
- 6.4 Bydd Coleg Cambria yn cysylltu ag ymgeiswyr ym mis Awst ac yn eu hatgoffa i gadarnhau eu lle ar-lein ddiwedd mis Awst (ni fydd angen i ddysgwyr SBA gadarnhau eu lle ar-lein).
- 6.5 Rydym yn annog ymgeiswyr na chafodd y cymwysterau TGAU roeddent yn eu disgwyl ym mis Awst i ddod i Goleg Cambria ar Ddiwrnod Canlyniadau TGAU, i drafod dewisiadau eraill.
- 6.6 Byddwn yn anfon gwybodaeth i ymgeiswyr sydd wedi cadarnhau eu lle ar-lein am eu dyddiad dechrau yn y coleg ddiwedd mis Awst.
- 6.7 Bydd angen isafswm o fyfyrwyr i gynnal pob cwrs. Os nad oes digon o fyfyrwyr i gynnal cwrs penodol, yna byddwn yn gwneud pob ymdrech i gofrestru myfyrwyr ar gwrs priodol tebyg.

7. Apeliadau

- 7.1 Os gwrthodwyd lle i ymgeisydd ar gwrs llawn amser, gallant apelio at y pennaeth cynorthwyol perthnasol, oni bai ein bod wedi gwrthod cais oherwydd bod y cwrs yn llawn, neu nad yw'n cael ei gynnal, neu os nad oes gan yr ymgeisydd y cymwysterau mynediad cywir.
- 7.2 Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno apelio, ysgrifennu at bennaeth cynorthwyol maes y cwrs y gwnaethant gais iddo, gan nodi eu rhesymau dros apelio.
- 7.3 Bydd y pennaeth cynorthwyol yn ystyried yr apêl gan edrych ar y rhesymau pam na chynigiwyd lle. Gallai hynny gynnwys siarad â'r aelod staff a gynhaliodd y cyfweiliad; edrych ar y Ffurflen Olrhain Cyfweiliad; ymgynghori â staff Cymorth i Ddysgwyr a / neu, petai angen hynny, gwahodd yr ymgeisydd i ddod i gyfarfod i drafod yr apêl.
- 7.4 Bydd y pennaeth cynorthwyol yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i gadarnhau canlyniad yr apêl. Os yw'r apêl yn aflwyddiannus, cynigir dewisiadau eraill, lle bo hynny'n briodol neu'n angenrheidiol.

8. Myfyrwyr Amser Llawn Presennol yn Symud ymlaen i Gwrs neu Lefel arall

- 8.1 Nid oes angen i ddysgwyr amser llawn presennol Coleg Cambria a fyddai'n hoffi symud ymlaen i gwrs neu lefel arall y flwyddyn ganlynol, gwblhau ffurflen gais.
- 8.2 Bydd tiwtoriaid yn cyfarfod â dysgwyr ym mis Ionawr i drafod dewisiadau dilyniant, a bydd y canlyniadau'n cael eu prosesu'n fewnol.
- 8.3 Os yw dysgwr yn cael cynnig lle i symud ymlaen i lefel nesaf eu cwrs presennol, bydd y coleg yn rhoi gwybod iddo / iddi rhwng mis Ionawr ac Ebrill. Bydd angen i'r dysgwr fynd i'r Gwasanaethau Myfyrwyr i gofrestru i sicrhau ei le / lle ar y cwrs.

- 8.4 Os yw dysgwr yn rhoi gwybod i'w tiwtor y byddai'n hoffi symud ymlaen i gwrs arall mewn maes pwnc gwahanol, yna bydd y Tîm Derbyniadau yn trefnu i'r dysgwr gael cyfweiliad gyda'r Gwasanaethau Myfyrwyr.

DIWEDD